***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 2199 (Cy.219)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Diwygio Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) (Rhif 2) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *21 Awst 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Hydref 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan adran 126(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**), adran 5(1) a (6) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**2**) a phob pwer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**) wedi cwblhau'r ymgynghori a ragnodwyd o dan adran 5(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**4**)), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) sEnw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diwygio Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) (Rhif 2) 2002 a daw i rym ar 1 Hydref 2002.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y prif Orchymyn" ("*the principal Order*") yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 fel y'i diwygiwyd (**5**).

### Diwygio erthygl 3 o'r prif Orchymyn

**2.** Rhaid diwygio'r prif Orchymyn drwy fewnosod y canlynol ar ôl erthygl 3(2):—

"(d) to manage and provide to or in relation to the health service in Wales a range of public health, health protection and health advisory services, child protection services, microbiological laboratory services and services relating to the surveillance, prevention and control of communicable diseases.".

(**1**) 1977 p.49; diwygiwyd adran 126(3) gan adran 65(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p. 19).
(**2**) 1990 p.19.
(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan a.126(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ac a.5(1) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**4**) Amnewidiwyd adran 5(2) gan baragraff 69 o Atodlen 1 i Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1996 (p. 17).
(**5**) O.S. 1993/2838 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/826 ac O.S. 2002/442 (Cy. 57).

**Diwygio erthygl 4 o'r prif Orchymyn**

**3.** Yn erthygl 4 o'r prif Orchymyn (Cyfarwyddwyr yr ymddiriedolaeth), am "4 executive directors" amnewidier "5 executive directors.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*Jane Davidson*

21 Awst 2002 — Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (y prif Orchymyn) ymhellach er mwyn diwygio ei swyddogaethau a chynyddu nifer ei gyfarwyddwyr anweithredol.

Mae'r Gorchymyn yn estyn swyddogaethau'r ymddiriedolaeth i gynnwys y swyddogaeth o reoli a darparu ystod o wasanaethau iechyd y cyhoedd, gwasanaethau amddiffyn iechyd a gwasanaethau ymgynghorol, gwasanaethau amddiffyn plant, gwasanaethau labordy microbiolegol a gwasanaethau sy'n ymwneud â chadw golwg ar afiechydon trosglyddadwy, eu hatal a'u rheoli.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r prif Orchymyn ymhellach drwy gynyddu nifer y cyfarwyddwyr anweithredol o 4 i 5.